

Annwyl riant/warchodwr/ofalwr,

Gwneud cais am le mewn ysgol i gychwyn ym mis Medi 2021

Gallwch wneud cais i'ch plentyn ymuno â dosbarth Meithrin, Derbyn, Blwyddyn 3 (os yw eich plentyn yn mynychu ysgol fabanod) ac ysgol uwchradd o'r dyddiadau isod ymlaen:

derbynnir ceisiadau o 07/09/2020 ymlaen - Uwchradd
derbynnir ceisiadau o 28/09/2020 ymlaen - Derbyn ac Iau
derbynnir ceisiadau o 29/09/2020 ymlaen - Meithrin

Mae yna nifer o ffyrdd y gallwch chi gyflwyno eich cais:

1. Ar-lein drwy wefan Sir Ddinbych
2. Cysylltu â'r adran Derbyn i Ysgolion i ofyn am ffurflen bapur

Os nad oes gennych chi fynediad i'r rhyngwyd gartref, gallwch gael mynediad i'r rhyngwyd am ddim yn unrhyw un o lyfrgelloedd Sir Ddinbych a gwneud eich cais yno.

Rydym yn argymhell enwi mwy nag un ysgol ar eich cais i leihau'r tebygolrwydd y byddwch yn cael eich siomi.

Peidiwch a dychwelyd eich cais papur yn nol i'r ysgol. Defnyddiwch y cyfeiriad sydd ar y ffurflen.

I weld pa fath o gais y dylech chi gyflwyno ar gyfer eich plentyn, edrychwch ar y tabl isod. Os yw dyddiad geni'ch plentyn rhwng y dyddiadau a nodir, fe ddylech wneud cais am y ddarpariaeth berthnasol honno. Dim ond os yw eich plentyn yn mynychu Ysgol Fabanod Llanelwy neu Ysgol y Parc y bydd yn rhaid i chi wneud cais am le Blwyddyn 3.

01/09/2017 - 31/08/2018 - Meithrin
01/09/2016 - 31/08/2017 - Derbyn
01/09/2013 - 31/08/2014 - Blwyddyn 3 (Iau)
01/09/2009 - 31/08/2010 - Blwyddyn 7 (Uwchradd)

Mae nifer o fanteision i ymgeisio ar-lein, gan gynnwys:

- Caiff ceisiadau eu derbyn yn awtomatig drwy e-bost, fel bod gennych brawf ei fod wedi cael ei anfon yn syth bin (gwelwch eich folder spam/junk os heb ei dderbyn)
- Mae ceisiadau'n cael eu cyflwyno ar unwaith i ni, felly nid oes unrhyw oedi nag risg gyda postio.

Bydd rhieni sy'n cyflwyno ffurflen bapur yn dal i dderbyn derbynneb, ond fe'u hanfonir o fewn 5 diwrnod gwaith. Os byddwch yn gwneud cais drwy'r post ac os nad ydych chi'n derbyn derbynneb o fewn yr amserlen hon, cysylltwch â ni.

Dyddiad cau ar gyfer ceisiadau

Gwnewch yn siŵr eich bod yn dychwelyd eich cais fel ein bod yn ei dderbyn erbyn y dyddiad perthnasol:

Uwchradd 06/11/2020
Iau 20/11/2020
Derbyn 20/11/2020
Meithrin 19/02/2021

Os na fyddwn yn derbyn eich cais erbyn y dyddiad cau, bydd yn cael ei drin fel cais 'hwyr'. Bydd hynny'n golygu y byddwch yn cael eich ystyried ar gyfer lle **ar ôl** y rheiny a gyflwynodd gais ar amser. Bydd hyn yn effeithio ar eich siawns o dderbyn cynnig.

Gordanysgrifio yn eich dewis ysgol

Erbyn y dyddiad cau, mae'n bosibl y byddwn wedi derbyn gormod o geisiadau ar gyfer nifer y lleoedd sydd ar gael yn yr ysgol o'ch dewis. Pan fydd hyn yn digwydd, rydym yn rhestru'r holl geisiadau 'ar amser' yn erbyn ein meini prawf gordanysgrifio i benderfynu pwy fydd yn cael lle yn yr ysgol honno, a phwy na fydd yn cael lle. Gellir dod o hyd i'r meini prawf yn y llyfryn Ysgolion Sir Ddinbych (2021-22), sydd ar gael ar ein gwefan.

Ni fydd enwi un ysgol yn unig yn cynyddu eich siawns o gael eich derbyn yn yr ysgol honno ac, os nad ydych chi'n derbyn cynnig, gall leihau eich siawns o sicrhau lle mewn ysgol arall. Os oes gan eich plentyn ar hyn o bryd le yn nosbarth meithrin eich dewis ysgol, bydd yn rhaid i chithau hefyd gyflwyno ffurflen. Ni fyddwch yn derbyn unrhyw flaenoriaeth ychwanegol ar gyfer y lle mewn dosbarth derbyn.

Efallai y gofynnir hefyd am brawf preswyllo os bydd gordanysgrifio.

Mynd yn ôl ac ymlaen o'r ysgol

Rhieni, gwarcheidwaid a gofalwyr sy'n gyfrifol am sicrhau bod eu plant yn cyrraedd ac yn gadael yr ysgol. Mae gan awdurdodau lleol ddyletswydd i ddarparu cludiant i'r ysgol ar gyfer teuluoedd sy'n gymwys, ond dim ond i'r ysgol addas agosaf ac nid o reidwydd o gyfeiriad y cartref. Ewch i www.sirddinbych.gov.uk/cludiantysgol i weld y polisi presennol. Mi all rhieni sydd yn ymgeisio am ysgol uwchradd ymweld a <https://mapiau.sirddinbych.gov.uk/FySirddinbych.aspx> er mwyn gweld pa ysgolion Saesneg neu Cymraeg yw'r rhai agosaf ar gyfer dibenion cymhwysedd trafnidiaeth.

Nid yw derbyn cynnig o le ysgol yn golygu y bydd eich plentyn yn cael cludiant am ddim i'r ysgol honno, felly cofiwch ystyried hyn wrth wneud cais.

Nid yw plant oed meithrin yn gymwys i gael cludiant ysgol am ddim.

Llyfryn Ysgolion Sir Ddinbych (2021-22)

Ewch i www.sirddinbych.gov.uk/derbyniadau i weld llyfryn Ysgolion Sir Ddinbych, sy'n darparu manylion cyswllt ar gyfer gwasanaethau defnyddiol eraill ac ysgolion, gwybodaeth i rieni ynghylch polisiâu ysgol, polisiâu derbyniadau a chludiant, a nifer y disgyblion ym mhob ysgol yn Sir Ddinbych.

Yn ddiffuant,



Ian Land

Rheolwr Cynllunio ac Adnoddau Addysg